Mumbles Community Council

# Minutes of Meeting of the Finance and Compliance Committee held on 16 September 2024 at 6.30 pm Hybrid Meeting at the Ostreme Centre & via Teams

**Councillors Present:** Rob Marshall (Chair) Pam Erasmus (Vice Chair), Ian Scott, Martin O'Neill, Phil Keeton, Sara Keeton and Carrie Townsend Jones

**Officers Present**: Paul Beynon – RFO, Diane Athernought – Customer Services Officer and Ian Hughes - CSO

**FI2409-01** **Apologies:** Cllr Tim Zhou

**FI2409-02** **Declarations of Interest**

CSO, Ian Hughes stated that he had a personal interest with Oystermouth Historical Association and left the meeting between 7.11pm and 7.23pm whilst the grant application was discussed (**FI2409-11** refers).

Cllr Erasmus stated that she had a personal interest with the applicant relating to the CRY grant application **FI2409-07 refers**.

Cllr Scott stated that he had a personal interest with Oystermouth Historical Association, being a member of that society in relation to grant application **FI2409-11**.

**FI2409-03** **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 15 July 2024 as a true record.

Cllr Erasmus arrived at the meeting at 6.33pm

**FI2409-04** **Outstanding Actions from Previous Meeting**

Outstanding actions outlined by CSO

**RESOLVED** outstanding actions updated, details recorded in 'outstanding action' report by CSO.

Mumbles Community Council

FI2409-05

**Budget Monitoring Reports to 31/07/2024 - Paul Beynon, RFO**

Financial reports prepared by RFO Paul Beynon which had previously been provided to councillors. The RFO outlined in relation to small and medium sized grants, that following expenditure up to the current time £15,600 remained available until the end of March 2025 (end of financial year).
No queries regarding these reports were raised by councillors.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st July 2024

FI2409-07

**Cardiac Risk in the Young (CRY) Grant Application**
Grant Application for £5,000 to contribute towards the screening of 100 young persons aged between 14 and 35 in relation to identifying heart-related issues.

This application had been discussed at July's Meeting and had been deferred to allow the applicant to provide additional information. The applicant had provided this information and Cllr Erasmus, who had declared a personal interest due to her friendship with the applicant also elaborated on the success of the project. Health screening had taken place in Newton Hall in 2023 and identified potentially vulnerable individuals. A discussion took place in relation to MCC's role in assisting a national charity albeit with direct local connections. Other issues connected to this application related to the role of NHS in identifying persons at risk, particularly those from families where pre-existing conditions exist.
More general concerns arose in discussion including whether MCC should contribute to national charities, whether other community councils are receiving similar requests for grants covering the same project and whether collections should be made for such charities at events arranged by MCC.

**RECOMMENDED** that Full Council make a decision in relation to this grant application.

**RECOMMENDED** that advice be sought through Full Council for guidance on how MCC should contribute to national charities in relation to future grant applications.

Mumbles Community Council

**FI2409-08**

**St John's Ambulance Gower Division Grant Application**
Grant Application for £5,000 to contribute towards the purchase of vital equipment for volunteers and includes expenditure for training

The Chair, Cllr Marshall outlined how a response had been received from the applicant in relation to queries raised at July's Meeting. The applicant confirmed that other grant applications had been made although further details had not been provided. In relation to discounts on services provided to MCC by St John's Ambulance, the applicant was prepared to offer a discount of 15% for training and 10% at MCC-related events in exchange for this grant application being successful.

**RECOMMENDED** that Full Council make a decision in relation to this grant application.

**RECOMMENDED** that advice be sought through Full Council for guidance on how MCC should contribute to national charities in relation to future grant applications.

**FI2409-09**

**Kids Cancer Charity Grant Application**
Grant Application for £1,000 to support families in Mumbles who have children diagnosed with cancer respite breaks.

A discussion again took place in relation to the role of MCC in relation to national charities and how guidance was required from One Voice Wales. Such advice having been recommended in the previous two agenda items.

The Chair, Cllr Marshall proposed that this grant be recommended on the basis that two beneficiaries had been identified, namely two families living within MCC and that the grant money requested was relatively small in relation to the two previous grant applications.

**RECOMMENDED** to approve a grant application for £1,000 be provided to support families in Mumbles who have children diagnosed with cancer respite breaks. **(Budget FC1)**

Mumbles Community Council

**FI2409-10** **Sunday Tea Room Grant Application**

Grant Application for £425, to provide elderly residents of MCC with monthly Sunday afternoon tea.

Cllr Townsend Jones outlined that although a national charity 'sign-posted' individuals to local charities the application related to a local and autonomous charity with no national oversight involved.

**RECOMMENDED** to approve a grant for £425, to provide elderly residents of MCC with monthly Sunday afternoon tea. **(Budget FC1)**

**FI2409-11** **Oystermouth Historical Association Grant Application**

Grant Application for £913.97, to provide equipment for the digitalisation of The Oystermouth Historical Association's Archive

During the discussion on the above The CSO left the meeting between 7.11pm and 7.23pm and Cllr Scott declared a personal interest being a member of the history society in question.

**RECOMMENDED** to approve a grant for £913.97, to provide equipment for the digitalisation of The Oystermouth Historical Association's Archive. **(Budget FC1)**

**FI2409-06** **Budget 2025/26**

The RFO Paul Beynon set out a timetable for budgeting in the financial year 2025/26. Certain commitments including the second £125,000 Ostreme Redevelopment budget will need to be considered, in addition to on-going commitments including Mumbles Traders and The West Cross Youth Club. Discussion also centred on the ability to use small and medium sized grants particularly in relation to grant applications.

**RESOLVED** to prioritise the proposed budgeting timetable for 2025/26 at October's Meeting by allocating the issue as the first agenda item.

Meeting ended 7.31pm
Next Meeting 21.10.2024

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024 am 6.30pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Rob Marshall (Cadeirydd), Pam Erasmus (Is-gadeirydd), Ian Scott, Martin O'Neill, Phil Keeton, Sara Keeton a Carrie Townsend Jones

**Swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Diane Athernought – Swyddog Gwasanaethau Cwsmeriaid, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**FI2409-01** **Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Tim Zhou

**FI2409-02** **Datganiadau o fuddiant**

Dywedodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau, Ian Hughes, fod ganddo fuddiant personol yng Nghymdeithas Hanes Ystumllwynarth a gadawodd y cyfarfod rhwng 7.11pm a 7.23pm tra oedd y cais am grant yn cael ei drafod (gweler **FI2409-11**).

Dywedodd y Cynghorydd Erasmus fod ganddi fuddiant personol yn yr ymgeisydd mewn perthynas â chais grant Risg Cardiaidd yn yr Ifanc (CRY) (gweler **FI2409-07**).

Dywedodd y Cynghorydd Scott fod ganddo fuddiant personol yng Nghymdeithas Hanes Ystumllwynarth, gan ei fod yn aelod o'r gymdeithas honno, mewn perthynas â chais am grant **FI2409-11**.

**FI2409-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2024 fel rhai cywir.

Cyrhaeddodd y Cynghorydd Erasmus y cyfarfod am 6.33pm.

**FI2409-04** **Camau i'w cymryd o'r cyfarfod blaenorol**

Amlinellwyd camau gweithredu heb eu cwblhau gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

**PENDERFYNWYD** bod y camau gweithredu a oedd heb eu cwblhau bellach wedi'u diweddaru, a bod y manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu heb eu cwblhau' gan y Swyddog Cymorth Pwyllgorau.

**FI2409-05** **Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2024 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i'r cynghorwyr yn flaenorol. Mewn perthynas â grantiau bach a chanolig, amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol fod £15,600 yn parhau i fod ar gael yn dilyn gwariant hyd at yr amser presennol tan ddiwedd mis Mawrth 2025 (diwedd y flwyddyn ariannol). Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gan gynghorwyr ynghylch yr adroddiadau hyn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Gorffennaf 2024.

**FI2409-07** **Cais grant Risg Cardiaidd yn yr Ifanc (CRY)**

Cais am grant o £5,000 i gyfrannu at sgrinio 100 o bobl ifanc rhwng 14 a 35 oed mewn perthynas ag adnabod materion yn ymwneud â'r galon.

Roedd y cais hwn wedi'i drafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf ac wedi'i ohirio er mwyn caniatáu i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth ychwanegol. Roedd yr ymgeisydd wedi darparu'r wybodaeth hon ac ymhelaethodd y Cynghorydd Erasmus, a oedd wedi datgan buddiant personol oherwydd ei chyfeillgarwch â'r ymgeisydd, ar lwyddiant y prosiect hefyd. Roedd sgrinio iechyd wedi'i gynnal yn Neuadd Newton yn 2023 ac wedi nodi unigolion a allai fod yn agored i niwed. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â rôl Cyngor Cymuned y Mwmbwls wrth gynorthwyo elusen genedlaethol, er bod ganddi gysylltiadau lleol uniongyrchol. Roedd materion eraill sy'n gysylltiedig â'r cais hwn yn ymwneud â rôl y GIG wrth nodi pobl sy'n wynebu risg, yn enwedig y rheini o deuluoedd lle mae cyflyrau'n bodoli eisoes. Cododd pryderon mwy cyffredinol yn y drafodaeth, gan gynnwys a ddylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls gyfrannu at elusennau cenedlaethol, a yw cynghorau cymuned eraill yn derbyn ceisiadau tebyg am grantiau ar gyfer yr un

prosiect, ac a ddylid gwneud casgliadau ar gyfer elusennau o'r fath mewn digwyddiadau a drefnwyd gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls.

**ARGYMHELLWYD** bod y cyngor llawn yn gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r cais hwn am grant.

**ARGYMHELLWYD** ceisio cyngor drwy'r cyngor llawn am arweiniad ar sut y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls gyfrannu at elusennau cenedlaethol mewn perthynas â cheisiadau grant yn y dyfodol.

FI2409-08

**Cais grant Is-adran Gŵyr Ambiwlans**

Cais am grant o £5,000 i gyfrannu at brynu offer hanfodol ar gyfer gwirfoddolwyr ac yn cynnwys gwariant ar gyfer hyfforddiant.

Amlinellodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, sut y derbyniwyd ymateb gan yr ymgeisydd mewn perthynas ag ymholiadau a godwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Cadarnhaodd yr ymgeisydd fod ceisiadau grant eraill wedi'u gwneud er nad oedd rhagor o fanylion wedi'u darparu. Mewn perthynas â gostyngiadau i wasanaethau a ddarperir i Gyngor Cymuned y Mwmbwls gan Ambiwlans Sant Ioan, roedd yr ymgeisydd yn barod i gynnig gostyngiad o 15% ar gyfer hyfforddiant a 10% mewn digwyddiadau cysylltiedig â Chyngor Cymuned y Mwmbwls yn gyfnewid am lwyddiant y cais hwn am grant.

**ARGYMHELLWYD** bod y cyngor llawn yn gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r cais hwn am grant.

**ARGYMHELLWYD** ceisio cyngor drwy'r cyngor llawn am arweiniad ar sut y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls gyfrannu at elusennau cenedlaethol mewn perthynas â cheisiadau grant yn y dyfodol.

FI2409-09

**Cais am grant Kids Cancer Charity**

Cais am grant o £1,000 i gefnogi teuluoedd yn y Mwmbwls sydd â phlant sydd wedi cael diagnosis o ganser er mwyn iddynt gael seibiannau.

Cafwyd trafodaeth eto mewn perthynas â rôl Cyngor Cymuned y Mwmbwls mewn perthynas ag elusennau cenedlaethol a sut oedd angen arweiniad gan Un Llais

Mumbles Community Council

Cymru. Roedd cyngor o'r fath wedi'i argymell yn y ddwy eitem flaenorol ar yr agenda.

Cynigiodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Marshall, y dylid argymell y grant hwn ar y sail bod dau fuddiolwr wedi'u nodi, sef dau deulu yn byw o fewn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls, a bod yr arian grant y gofynnwyd amdano yn gymharol fach mewn perthynas â'r ddau gais grant blaenorol.

**ARGYMHELLWYD** cymeradwyo cais am granto £1,000 i gefnogi teuluoedd yn y Mwmbwls sydd â phlant sydd wedi cael diagnosis o ganser er mwyn iddynt gael seibiannau. **(Cyllideb FC1)**

**FI2409-10** **Cais am grant ar gyfer ystafell de dydd Sul**

Cais am grant o £425 i ddarparu te prynhawn dydd Sul misol i drigolion oedrannus Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

Amlinellodd y Cynghorydd Townsend Jones, er bod elusen genedlaethol yn 'cyfeirio' unigolion at elusennau lleol, roedd y cais yn ymwneud ag elusen leol ac ymreolaethol heb unrhyw oruchwyliaeth genedlaethol.

**ARGYMHELLWYD** cymeradwyo grant o £425 i ddarparu te prynhawn Sul misol i drigolion oedrannus Cyngor Cymuned y Mwmbwls. **(Cyllideb FC1)**

**FI2409-11** **Cais grant Cymdeithas Hanes Ystumllwynarth**

Cais am grant o £913.97 i ddarparu offer ar gyfer digideiddio archif Cymdeithas Hanes Ystumllwynarth.

Yn ystod y drafodaeth ar yr uchod, gadawodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau y cyfarfod rhwng 7.11pm a 7.23pm a datganodd y Cynghorydd Scott fuddiant personol fel aelod o'r gymdeithas hanes dan sylw.

**ARGYMHELLWYD** cymeradwyo grant o £913.97 i ddarparu offer ar gyfer digideiddio archif Cymdeithas Hanes Ystumllwynarth. **(Cyllideb FC1)**

**FI2409-06** **Cyllideb 2025/26**

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, amserlen ar gyfer cyllidebu ym mlwyddyn ariannol 2025/26. Bydd angen ystyried rhai ymrwymiadau, gan gynnwys ail gyllideb Ailddatblygu Ostreme o £125,000, yn ogystal ag ymrwymiadau parhaus, gan gynnwys Masnachwyr y Mwmbwls a Chlwb Ieuenctid West Cross. Roedd y drafodaeth hefyd yn canolbwyntio ar y gallu i ddefnyddio grantiau bach a chanolig, yn enwedig mewn perthynas â cheisiadau am grantiau.

**PENDERFYNWYD** blaenoriaethu'r amserlen gyllidebu arfaethedig ar gyfer 2025/26 yng nghyfarfod mis Hydref drwy ddyrannu'r mater fel yr eitem gyntaf ar yr agenda.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.31pm.
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 21 Hydref 2024.